Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cael yr help rydych chi ei angen oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol

Eich canllaw i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol'. Taflenni Ffeithiau 1: Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)'.**

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).....6

Eich hawliau.....10

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.....16

Beth i'w wneud os na fyddwch chi yn cael yr help rydych ei angen.....19

Cysylltiadau defnyddiol.....21

Geiriau anodd.....24

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen .
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)



Deddf Cymru ydy **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**.

Mae'r ddeddf yma yn helpu i:

- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth sy'n iawn iddyn nhw

- gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu aros yn annibynnol mor hir ag y maen nhw'n gallu

- gwneud yn siŵr bod dewisiadau a safbwyntiau pobl yn cael eu gwrando.

Dechreuodd y ddeddf yma yn 2016.

Mae wedi newid sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio ar draws Cymru gyfan.

Nod y ddeddf ydy gwneud yn siŵr bod pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn gweithio yn yr un ffordd er mwyn:

- hyrwyddo **llesiant** pobl

> Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a gyda beth maen nhw'n ei wneud.

- amddiffyn pobl rhag cael eu **camdrin** ac **esgeulustod**.

Camdrin ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin chi yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gam-drin ydy esgeulustod.

Mae'r ddeddf yma hefyd yn cynnwys gofalwyr am y tro cyntaf. Mae'n dweud bod gan ofalwyr yr hawl i gael **asesiad** anghenion gofalwyr. A chefnogaeth os ydyn nhw ei angen.

Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld ydych chi angen gofal a chymorth. Pa ofal a chymorth sydd ei angen arnoch. A sut rydych chi yn ei gael.

A does dim angen i ofalwyr ddarparu gofal am nifer penodol o oriau er mwyn gallu cael **asesiad**.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn dweud fod yn rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio ar **beth sy'n bwysig i chi**.

Mae'n rhoi mwy o lais a rheolaeth i chi dros eich gofal a'ch cefnogaeth.

Eich hawliau

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn dweud:

- Mae gan bawb yng Nghymru yr hawl i **lesiant** da.

- Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud ei orau i'ch cefnogi. A gwella eich **llesiant**.

- Rhaid i'ch awdurdod lleol wneud yn siŵr eich bod yn gallu cael gwybodaeth, cyngor a chymorth am wasanaethau gofal a chymorth yn hawdd.

Rhaid i bob awdurdod lleol gael **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**.

- Mae gennych chi hawl i gael rheolaeth dros eich cymorth.

- Mae gennych chi hawl i wneud penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth. Mae'n rhaid i chi gael eich trin fel partner cyfartal pan mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Rhaid i'ch awdurdod lleol gymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod beth sydd orau i chi.

- Mae gennych chi hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau am eich gofal a'ch cymorth.

Rhaid i'ch awdurdod lleol ddarganfod a gwrando ar eich **barn, eich dymuniadau, a'ch teimladau**.

Rhaid iddyn nhw feddwl ydych chi angen **eiriolwr** proffesiynol i'ch cefnogi chi i gymryd rhan mewn penderfyniadau.

Mae **eiriolwr** proffesiynol yn berson sydd wedi'i hyfforddi sydd yn gallu eich helpu a siarad drosoch i wneud yn siŵr bod eich barn a'ch dymuniadau yn cael eu clywed a'u gwrando.

Mae gennych chi hawl i eiriolwr yn rhad ac am ddim.

- Rhaid i wasanaethau ganolbwyntio ar gael y **gefnogaeth gywir i chi ar yr amser cywir**.

Mae gennych chi hawl i gael **asesiad** anghenion os ydych chi yn meddwl efallai y bydd angen gwasanaethau gofal a chymorth arnoch.

Pan fyddwch chi yn cael **asesiad** anghenion, rhaid i'ch awdurdod lleol edrych ar beth rydych **chi** eisiau ei gyflawni yn eich bywyd o ddydd i ddydd.



Yna rhaid i'ch awdurdod lleol feddwl pa wasanaethau fyddai'n eich cefnogi orau i gyflawni eich nodau.

- Os ydych chi yn bodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, mae gennych chi hawl i ofal chymorth.

Ac mae gennych chi hawl i **gael Cynllun Gofal a Chymorth –** neu Gynllun Cymorth os ydych chi yn ofalwr.

Mae'r **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol** yn rhestr o resymau y mae'n rhaid i chi eu cael allu derbyn gofal a chymorth.

Mae gennych chi hawl i fod yn rhan o'r broses o wneud eich Cynllun Gofal a **Chymorth neu Gynllun Cymorth**.

Efallai y bydd angen i chi dalu am eich gofal a'ch cymorth. Mae gennych chi hawl i g**ael asesiad ariannol** i weld faint y gallwch chi fforddio ei dalu.

Asesiad ariannol ydy archwiliad i weld:

- Pa arian sydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
- Faint sy'n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
- Faint sydd gennych chi mewn cynilion.

Mae gennych chi hawl i gael **taliad uniongyrchol** os ydych chi eisiau trefnu a thalu am eich gwasanaethau gofal a chymorth eich hun.

Mae **taliad uniongyrchol** yn arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

- Mae'r gyfraith yn gryfach am amddiffyn pobl rhag **camdriniaeth** ac **esgeulustod**. Os ydy eich awdurdod lleol yn credu bod oedolyn mewn perygl mae'n rhaid iddo ymchwilio. A phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mae **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn** yn set o egwyddorion sydd wedi cael eu hysgrifennu gan y **Cenhedloedd Unedig**.

Gwerthoedd a chredoau sy'n ffurfio rheolau ydy egwyddorion.

Mae'r **Cenhedloedd Unedig** yn gorff sy'n cynnwys llywodraethau ar draws y byd. Mae'n gweithio i wneud y byd yn lle gwell.

Mae **Egwyddorion y Cenedlaethol Unedig ar gyfer Pobl Hŷn** yn dweud sut y dylai pobl hŷn gael eu trin.

Fe ddylai pob llywodraeth ddilyn yr **egwyddorion yma.**

Mae'r egwyddorion yn cael eu grwpio o dan 5 thema bwysig:

- Bod yn annibynnol
- Cymryd rhan mewn cymdeithas
- Derbyn gofal
- Gwneud beth sy'n eich gwneud chi'n hapus
- Urddas - cael eich trin yn deg a gyda pharch

Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn cynnwys yr egwyddorion yma.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn dweud bod yn rhaid i wasanaethau cymdeithasol feddwl am **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn**.

Mae gennych chi **hawl** i'r egwyddorion yma gael eu meddwl amdanyn nhw pan mae penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth yn cael eu gwneud

Am fwy o wybodaeth am yr egwyddorion ewch yma: https://comisiynyddph.cymru/amdano/cynllun-cyhoeddi/ein-polisiau/egwyddorion-y-cenhedloedd-unedig-ar-gyfer-personau-hyn/

Beth i'w wneud os nad ydych chi'n cael yr help rydych chi ei angen

Os ydych chi yn anhapus am y gwasanaeth rydych chi'n ei gael gan eich awdurdod lleol, rydych chi'n gallu cwyno.

Rydych chi'n gallu rhoi cwyn trwy broses gwynion eich awdurdod lleol.

Rydych chi'n gallu cwyno am:

- Unrhyw wasanaeth cymdeithasol y mae eich awdurdod lleol yn ei ddarparu.
- Eich awdurdod lleol yn penderfynu peidio rhoi gwasanaeth i chi.
- Unrhyw wasanaeth cymdeithasol y mae eich awdurdod lleol yn ei drefnu drwy sefydliad arall.
- Aelod o staff.
- Gwasanaethau cymdeithasol ddim yn dweud wrthych chi am benderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Cyn i chi gwyno, gwnewch yn siŵr bod eich awdurdod lleol yn gwybod beth ydy eich sefyllfa. Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol.

Rydych chi'n gallu dod o hyd i fanylion eich awdurdod lleol ar wefan Llywodraeth Cymru yma: www.llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-awdurdod-lleol

Os ydych chi angen help i gwyno, rhaid i'ch awdurdod lleol benderfynu pa help y gallan nhw ei roi i chi.

Fe ddylen nhw ddweud wrthych chi am ba gyngor a chefnogaeth y gallwch chi ei gael. Mae hyn yn gallu cynnwys **eiriolydd**.

Os nad ydych chi yn hapus gyda'r ffordd y mae'ch awdurdod lleol yn eich cefnogi i wneud cwyn, rydych chi'n gallu cwyno am hynny hefyd.

Cysylltiadau defnyddiol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyfeiriad: Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru (Canolfan Dysgu)

Cyfeiriad: Tŷ South Gate
Stryd y Coed
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 30 33 444

Gwefan: www.socialcare.wales/hub/home

Llywodraeth Cymru

Cyfeiriad: Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 0604400
Gwefan: www.llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Cyfeiriad: Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 7900 126
Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Age Cymru

Cyfeiriad: Y Llawr Gwaelod
Tŷ'r Mariners
Llys Trident
Ffordd Dwyrain Moors
Caerdydd
CF24 5TD
Ffôn: 0300 303 44 98
Gwefan: www.ageuk.org.uk/cymraeg/age-cymru

Gofal a Thrwsio Cymru

Cyfeiriad: Llawr 1af
Tŷ'r Mariners
Llys Trident
Ffordd Dwyrain Moors
Cardiff
CF24 5TD
Ffôn: 029 2010 7580
Gwefan: www.careandrepair.org.uk/cy

Gofalwyr Cymru

Cyfeiriad: Llawr Gwaelod, Uned 5
Llys Ynys Bridge
Caerdydd
CF15 9SS
Ffôn: 029 2081 1370
Gwefan: www.carersuk.org/wales

Cyngor ar Bopeth - Cwynion Gwasanaeth Cymdeithasol

Ffôn: 0800 702 2020
Gwefan: www.citizensadvice.org.uk

Geiriau anodd

Asesiad

Asesiad ydy'r broses rydych chi'n mynd drwyddo gyda'ch awdurdod lleol i weld ydych chi angen gofal a chymorth . Pa ofal a chymorth rydych chi ei angen. A sut rydych chi;n ei gael.

Asesiad ariannol

Archwiliad ydy asesiad ariannol i weld:

- faint o arian sydd gennych chi i fyw arno bob wythnos.
- faint sy'n rhaid i chi dalu am bethau fel rhent a threth cyngor.
- faint sydd gennych chi mewn cynilion.

Camdriniaeth/Cam-drin

Cam-drin yw pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Eiriolwr

Mae eiriolwr proffesiynol yn berson sydd wedi'i hyfforddi ac mae'n gallu eich helpu a siarad drosoch i wneud yn siŵr bod eich barn a'ch dymuniadau yn cael eu clywed a'u gwrando.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gam-drin ydy esgeulustod.

Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a beth maen nhw'n ei wneud.

Taliad uniongyrchol

Mae taliad uniongyrchol yn arian rydych chi;'n gallku ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.